**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Addysg, Diwylliant a'r Gymraeg ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â’r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae’r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau’r costau tebygol.

**Jayne Bryant AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Tai**
**23 Medi 2024**

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae'r Rheoliadau hyn:

- yn sicrhau bod pensiynau'r diffoddwyr tân o dan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 yn cael eu hailbrisio gan ddefnyddio'r gyfradd gywir mewn perthynas â 2021 a 2022, drwy gywiro problem sy'n codi o ganlyniad i Orchmynion Ailbrisio Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a wneir gan Drysorlys EF ar gyfer y ddwy flynedd hynny.

- yn gwneud rhai mân gywiriadau i Reoliadau Pensiynau Diffoddwyr Tân (Gwasanaeth Rhwymedïol) (Cymru) 2023 a Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Adroddodd y Pwyllgor ar y canlynol:

- Rheoliadau Pensiynau Diffoddwyr Tân (Gwasanaeth Rhwymedïol) (Cymru) 2023 (SL(6)381), a

- Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024 (SL(6)441).

2.2 Mae rheoliadau 4 a 5 yn ymdrin â nifer o'r pwyntiau craffu a godwyd gan y Pwyllgor yn eu hadroddiadau ar yr offerynnau hynny.

2.3 Mae rheoliad 3 yn cael effaith ôl-weithredol. Mae hyn yn anochel: mae'n cywiro gwall a wnaed gan Drysorlys Ei Fawrhydi a effeithiodd ar gyfrifiad pensiwn cronedig ar gyfer y blynyddoedd 2021 a 2022. Daeth y gwall hwnnw i'r amlwg ar ôl i'r cyfrifiadau perthnasol gael eu gwneud a dim ond yn ôl-weithredol y gellir ei gywiro.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Maent yn diwygio:

- Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 ("Cynllun Pensiwn 2015"), a nodir yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân

(Cymru) 2015, i gywiro problem â phrisio hawliau pensiwn ar gyfer 2021 a 2022,

- Rheoliadau Pensiynau Diffoddwyr Tân (Gwasanaeth Rhwymedïol) (Cymru) 2023 (“Rheoliadau Gwasanaeth Rhwymedïol 2023”) i wneud rhai mân gywiriadau,

- Cynllun Pensiwn Newydd y Diffoddwyr Tân (Cymru) (“Cynllun Pensiwn 2007”), a nodir yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 i wneud mân gywiriad i rywfaint o’r testun Cymraeg a fewnosodwyd ynddo gan Orchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu’r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024.

***Y cefndir deddfwriaethol i reoliad 3, ynghylch prisiadau'r cynllun***

3.2 Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 yn "rheoliadau cynllun" at ddibenion adran 1(1) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Mae adrannau 2 (ynghyd â pharagraff 6(6) o Atodlen 2) a 3 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud a diwygio rheoliadau cynllun sy'n ymwneud â diffoddwyr tân a gyflogir gan yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

3.3 Mae pensiynau cronedig aelodau actif o Gynllun Pensiwn 2015 yn cael eu hailbrisio'n flynyddol yn unol â gorchmynion a wneir gan Drysorlys EF o dan adran 9 o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Darparwyd ar gyfer ailbrisio 2021 a 2022 yng Ngorchymyn Ailbrisio Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2021 a Gorchymyn Ailbrisio Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2022.

3.4 Mae adrannau 1(1) a (2)(f), a 2(1) (ynghyd â pharagraff 6(b) o Atodlen 2), adran 3(1), (2) a (3)(a) a (b) o Ddeddf 2013 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio Cynllun 2015 i gyflwyno "atodiad mynegai" i gywiro'r broblem a grëwyd gan orchmynion ailbrisio Trysorlys EF 2021 a 2022.

***Y cefndir deddfwriaethol i reoliad 4, ynghylch Rheoliadau Gwasanaeth Rhwymedïol 2023***

3.5 Mae Rheoliadau Pensiynau Diffoddwyr Tân (Gwasanaeth Rhwymedïol) (Cymru) 2023 hefyd yn "rheoliadau cynllun" at ddibenion adran 1(1) o Ddeddf 2013. Fel y caniateir o dan Gynllun Pensiwn 2015, caiff Gweinidogion Cymru eu diwygio drwy reoliadau. Yn ogystal, maent yn gwneud darpariaeth o dan Bennod 1 o Ran 1 o Ddeddf Pensiynau’r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 fel "rheoliadau cynllun" at ddibenion adran 37 o'r Ddeddf honno.

3.6 Yn ogystal â'r pwerau a grybwyllir uchod o dan Ddeddf 2013, mae adrannau 18(1), 19(1), (4) a (5), 21(1) i (3) a 22(1) a (6) o Ddeddf 2022 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn i ddiwygio rheoliadau 2023.

3.7 I'r graddau sy'n ofynnol gan adran 27 o Ddeddf 2022, rhaid gwneud darpariaeth o'r fath yn unol â Chyfarwyddydau Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus (Arfer Pwerau, Digolledu a Gwybodaeth) 2022.

***Y cefndir deddfwriaethol i reoliad 5, ynghylch Cynllun Pensiwn 2007***

3.8 Sefydlwyd Cynllun Pensiwn 2007, fel y nodir yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007, gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 34 (a ddarllenir gydag adran 62) a 60 o Ddeddf 2004. Trosglwyddwyd y pwerau hynny (i'r graddau yr oeddent yn gymwys i Gymru) i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi.

3.9 Diwygiwyd Cynllun Pensiwn 2007 yn ddiweddar gan Orchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024 ("Gorchymyn 2024").

3.10 Mae adran 34(1), (2) a (4), a 60(2)(a) o Ddeddf 2004 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddiwygio Cynllun Pensiwn 2007 ymhellach i gywiro diwygiad a wnaed gan Orchymyn 2024.

***Pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth ar wahanol ffurfiau***

3.11 Mynegir y pŵer i ddiwygio Cynllun Pensiwn 2007 o dan adran 34(1), (2) a (4) o Ddeddf 2004 fel pŵer i wneud gorchymyn. Mynegir y pŵer i ddiwygio Cynllun Pensiwn 2015 a Rheoliadau 2023 o dan adran 3(1) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 fel pŵer i wneud rheoliadau cynllun.

3.12 Mae adran 39 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn darparu, pan fo gan Weinidogion Cymru bŵer neu ddyletswydd i wneud is-ddeddfwriaeth ar ffurf rheoliadau, rheolau neu orchymyn a wneir drwy offeryn statudol, y cânt arfer y pŵer neu'r ddyletswydd drwy wneud yr is-ddeddfwriaeth ar unrhyw un o'r ffurfiau eraill hynny drwy offeryn statudol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae pensiynau cronedig aelodau actif o Gynllun Pensiwn 2015 yn cael eu hailbrisio bob blwyddyn. Gwneir yr ailbrisio yn unol â gorchymyn blynyddol a wneir gan Drysorlys EF o dan adran 9(2) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013. Roedd y cynnydd y darparwyd ar ei gyfer yng Ngorchymyn Ailbrisio Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2021 a Gorchymyn Ailbrisio Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2022 yn seiliedig ar enillion wythnosol cyfartalog dros dro a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Tachwedd ar gyfer pob un o'r priod flynyddoedd.

4.2 Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Cynllun Pensiwn 2015 fel bod yr ailbrisiad ar gyfer y ddwy flynedd hynny yn adlewyrchu ffigurau terfynol mis

Rhagfyr a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer pob un o'r blynyddoedd hynny.

4.3 Bydd hyn yn cael yr effaith o gynyddu ailbrisiad enillion pensiwn yr aelodau yr effeithir arnynt 0.2% ar gyfer 2020-21, a 0.4% ar gyfer 2021-22.

4.4 Bwriedir i'r Rheoliadau hyn hefyd ymdrin â nifer o bwyntiau a godwyd gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Reoliadau Pensiynau Diffoddwyr Tân (Gwasanaeth Rhwymedïol) (Cymru) 2023, a Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu’r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024. Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn ymdrin â nifer o faterion drafftio a chyfieithu. Nid yw'r diwygiadau'n gyfystyr â newid ym mwriad polisi sylfaenol yr offerynnau hynny.

**Ymgynghori**

4.5 Mae adran 34(5) o Ddeddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol cyn gwneud, amrywio neu ddirymu gorchymyn o dan adran 34 o Ddeddf 2004.

4.6 Mae'r Rheoliadau arfaethedig yn "rheoliadau cynllun" o dan Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 (fel y'u diffinnir yn adran 1 o'r Ddeddf honno). Mae adran 21(1) yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori â phersonau (neu gynrychiolwyr y personau) sy'n ymddangos i'r awdurdod cyfrifol eu bod yn debygol o gael eu heffeithio gan y rheoliadau pe baent yn cael eu gwneud.

4.7 Bydd y diwygiadau mewn perthynas ag ailbrisio pensiwn cronedig bob blwyddyn yn gwbl fuddiol i bob aelod yr effeithir arnynt; byddant yn derbyn cynnydd bach mewn pensiwn cronedig heb unrhyw gost iddynt. Mae'r diwygiadau drafftio mewn perthynas â Rheoliadau Pensiynau Diffoddwyr Tân (Gwasanaeth Rhwymedïol) (Cymru) 2023 a Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu’r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024 yn rhai mân ac yn dechnegol eu natur. Yn unol â hynny, penderfynodd Llywodraeth Cymru beidio â chynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar y materion hyn. Yn lle hynny, cynhaliwyd ymgynghoriad â Bwrdd Cynghori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Mae'r Bwrdd yn cynnwys y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru a phedwar undeb a chorff cynrychioladol cydnabyddedig y diffoddwyr tân.

4.8 Cynhaliwyd ymgynghoriad ar fwriad polisi Llywodraeth Cymru o ddiwygio Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 i gynyddu codiad pensiwn blynyddol aelodau'r cynllun i gywiro gwall yng Ngorchmynion Ailbrisio Trysorlys EF ar gyfer 2021 a 2022 yng nghyfarfod y Bwrdd ar 28 Gorffennaf 2023.

4.9 Roedd holl aelodau'r Bwrdd (cyflogwyr a gweithwyr) yn fodlon ar y cynigion i gywiro'r gwall fel hyn. Trafodwyd y materion cysylltiedig canlynol:

- pryderon am yr effaith y byddai'r gwall yn ei chael ar achosion niwed ar unwaith (hynny yw, diffoddwyr tân a fyddai eisoes wedi cyrraedd yr oedran y gallent ymddeol ac eithrio ar gyfer y gwahaniaethu ar sail oedran a nodwyd yn achos Sargeant) a oedd eisoes wedi'i brosesu. Cytunwyd y byddai'n rhaid i'r Awdurdodau Tân ac Achub ailedrych ar y cyfrifiadau a ddarparwyd i'r aelodau niwed ar unwaith, gan fod yr wybodaeth yr oeddent wedi seilio eu penderfyniad arni yn debygol o fod wedi bod yn anghywir.

- goblygiadau cost y gwall. Nododd Llywodraeth Cymru y byddai gwerth uwch pensiynau sy'n deillio o gywiro'r codiad blynyddol yn cael ei gynnwys ym mhroses brisio cynllun pensiwn 2020, ac y byddai'n cael ei adlewyrchu yng nghyfraddau cyflogwyr newydd a gyflwynir o fis Ebrill 2024.

4.10 Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y mân ddiwygiadau mewn perthynas â gwallau yn Rheoliadau Pensiynau Diffoddwyr Tân (Gwasanaeth Rhwymedïol) (Cymru) 2023 a Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu’r Diffoddwyr Tân (Diwygio) (Cymru) 2024, yng nghyfarfod y Bwrdd ar 30 Ebrill 2024.

4.11 Ni chodwyd unrhyw faterion gan gynrychiolwyr cyflogwyr na chynrychiolwyr gweithwyr.

4.12 Gwneir rheoliadau 3 a 4 o'r Rheoliadau hyn â chydsyniad Trysorlys EF, yn unol ag adran 3(5) o Ddeddf 2013.

**Asesiadau o'r Effaith**

4.13. Mae'r Rheoliadau yn cywiro Gorchmynion Ailbrisio Trysorlys EF 2021 a 2022 a oedd yn defnyddio gwybodaeth anghywir. Gan y bydd y ddwy set o ddata'n cynyddu gwerthoedd pensiynau yn ôl yr un gyfran, daethpwyd i’r penderfyniad nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

4.14 Yn ogystal, oherwydd bod y cywiriadau a wneir i Reoliadau Pensiynau Diffoddwyr Tân (Gwasanaeth Rhwymedïol) (Cymru) 2023 a Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 yn rhai mân eu natur, credir nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn yr achos hwn.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

### 5. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

5.1 Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn cynnwys rheoliad 3 o Reoliadau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Diwygiadau Amrywiol)

(Cymru) 2024.  Mae'r rheoliadau sy'n weddill yn cynnwys mân ddiwygiadau technegol yn unig.

## 6. Yr opsiynau

6.1 Mae'r opsiynau sydd ar gael i'r Dirprwy Weinidog fel a ganlyn:

> **Opsiwn 1.  Gwneud dim** – byddai gwneud dim yn golygu y byddai pensiynau cronedig yr aelodau yr effeithir arnynt yn parhau 0.2% yn is na'r lefel gywir ar gyfer 2020-21 a 0.4% yn is na'r lefel gywir ar gyfer 2021-22.
>
> **Opsiwn 2.  Gwneud y ddeddfwriaeth** – bydd gwneud y ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer cymhwyso'r codiad cywir gan sicrhau bod diffoddwyr tân yn cael y croniad llawn y mae ganddynt hawl iddo.

## 7. Costau a manteision

### Costau

7.1 Bydd rheoliad 3 yn arwain at gynnydd bach mewn taliadau pensiwn i aelodau yr effeithir arnynt yng Nghynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2015. Mae hynny am ei fod yn cael yr effaith o gynyddu ailbrisiad pensiynau cronedig aelodau 0.2% a 0.4% yn y drefn honno i gywiro gwall a wnaed yn 2020 a 2021 a arweiniodd at godiad sy'n is na'r lefel gywir. Bydd y cyfryw daliadau yn cael eu gwneud pan fydd yr aelodau unigol yr effeithir arnynt yn ymddeol, a gallai hynny fod ar unrhyw adeg dros y 30-40 mlynedd nesaf. Bydd effaith hyn ar gyfraddau cyfraniadau (sy'n debygol o fod yn gymharol fach) yn cael sylw ym mhrisiadau'r cynllun yn y dyfodol.

7.2 Mae Adroddiad Prisio 2020 Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân yng Nghymru (sydd ar gael yma) yn cynnwys rhagdybiaethau ariannol ar gyfer ailbrisio dros y cyfnod prisio pedair blynedd cyfan, gan gynnwys cywiriadau Ailbrisio Enillion Cyfartalog Gyrfa (CARE) y darperir ar eu cyfer yn y rheoliadau hyn.  Ystyrir bod effaith cyfanswm ailbrisio enillion cyfartalog gyrfa ar draws y cyfnod prisio (gan gynnwys yr addasiad a achosir gan y gwall) yn cael effaith isel ar gyfradd cyfraniad y cyflogwr.  Y cynnydd yng nghyfradd cyfraniad cyflogwr ar gyfer Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2015 (heb gyfraniadau pensiwn ar sail afiechyd) sy'n deillio o Brisiad llawn 2020 yw 3.7% o gyflog pensiynadwy (o 28.3% i 31%), er bod hyn yn bennaf oherwydd ffactorau eraill ar wahân i gywiro'r gwall uchod.  Mae'r gyfradd newydd ar gyfer cyflogwyr yn gymwys i'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru o 1 Ebrill 2024.

### Manteision

7.3 Rydym yn disgwyl i'r newidiadau mwyaf mewn taliadau pensiwn blynyddol ar gyfer aelodaeth lawn o'r cynllun fod rhwng £25 a £50 y flwyddyn ar y prisiau presennol i'r rhan fwyaf o’r aelodau.

**8. Asesu'r gystadleuaeth**

8.1 Amherthnasol.

**9. Adolygiad ar ôl gweithredu**

9.1 Bydd unrhyw adolygiad yn cael ei gynnal drwy brisiadau o gynlluniau pensiwn a gynhelir gan Adran Actiwari'r Llywodraeth a/neu Fwrdd Cynghori Cymru ar Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn y dyfodol, lle bydd cynrychiolwyr cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr yn cael cyfle i godi materion sy'n ymwneud â'r Gorchymyn a'r trefniadau ymarferol ar gyfer ei roi ar waith.